
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1307

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y
Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth,
a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022**

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod bilio” (“*billing authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(1);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae i “hereditament” yr ystyr a roddir i “hereditament” yn adran 64 o'r Ddeddf.